

BYLCHAU A MEYSYDD I'W
GWELLA

Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella

At ei gilydd, mae ansawdd ac argaeledd gofal plant yng Nghasnewydd yn dda ac yn ddigonol i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o deuluoedd. Er bod COVID-19 wedi achosi her eithafol i'r sector, dim ond un lleoliad gofal dydd llawn a fu'n cau o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig ac arweiniodd hynny at golled. Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau yn y ddarpariaeth a bydd y rhain yn cael sylw yn y cynllun gweithredu.

Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg

Mae nifer cyfyngedig o ddarpariaethau Cymraeg yng Nghasnewydd, Mae pob un yn lleoliad fesul sesiwn a dim un yn cynnig gofal dydd llawn i rieni sy'n gweithio. Does dim gwarchodwyr plant na meithrinfeydd dydd llawn cyfrwng Cymraeg ar gael yn y ddinas. Yn ôl data'r DHG mae yna un ddarpariaeth fesul sesiwn cyfrwng Cymraeg yn ward Shaftesbury a Sain Silian. Ers hynny mae Cylch Meithrin wedi agor yng Nghaerllion. Ni ddangosodd data'r DHG unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau ysgol er bod gwybodaeth gan Clybiau Plant Cymru Kid's Club yn dangos bod un lleoliad wedi ei leoli o fewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl gwybodaeth o Dechrau'n Deg mae yna 1 lleoliad Cyfrwng Cymraeg yn Ringland sydd â lleoedd ar gael.

Mae gwybodaeth gan Chwarae Mynediad Agored yn dangos bod un ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, sydd ym Mhilgwenlli, sy'n cynnig gofal plant cofrestredig trwy gydol y gwyliau.

Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategorïau iaith

Yn ôl data'r DHG ar gyfer gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd llawn, gofal y tu allan i oriau ysgol a darpariaeth fesul sesiwn, dim ond 2% sydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwyafrif y lleoliadau, 91% yn nodi eu bod yn gyfrwng Saesneg gyda 5% yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog. Roedd 1% arall yn nodi eu bod yn defnyddio ieithoedd eraill, sef Tsieinëeg, Iseldireg, Pwyleg a Sbaeneg.

Meysydd i'w gwella

- ✓ Hyrwyddo manteision dewis Gofal Plant ac Addysg Cyfrwng Cymraeg
- ✓ Datblygu gwasanaethau gofal plant a chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg
- ✓ Hybu gofal plant a chwarae fel opsiynau gyrfa o fewn ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg

Darpariaeth gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol

Mae lleoliadau'n cynnig ystod dda o oriau gweithredu, ac yn ôl data'r DHG, mae rhai gwarchodwyr plant yn gweithio oriau estynedig ac ar benwythnosau. Fodd bynnag, mae dewis cyfyngedig iawn ar draws y ddinas. Yn ôl adborth gan ymgynghoriadau gyda PaCE a rhieni lleol, mae diffyg gofal plant ar benwythnosau yn rhwystr i gael mynediad at waith. Mae'r mwyafrif helaeth o ofal plant yng Nghasnewydd yn digwydd rhwng 8am a 6pm. Mae patrymau amrywiol o amseroedd agor a chau rhwng mathau o wasanaethau gyda'r amrywiad mwyaf yn ymddangos mewn gwasanaethau gwarchod plant gan eu bod yn aml yn darparu ar gyfer y rhieni hynny sydd â phatrymau gwaith mwy cyfnewidiol.

Yn seiliedig ar ddata'r DHG mae amrywiaeth dda o wasanaethau ar gael, ond mae darpariaethau'n gyfyngedig i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol. Mae gwarchodwyr plant yn tueddu i gynnig oriau agor mwy hyblyg a darparu ar gyfer y mwyafrif o weithwyr annodweddiadol. Amser cychwyn gwasanaethau gwarchod plant ar gyfartaledd yw rhwng 6.30am a 7.00am. Mae rhai gwarchodwyr plant sy'n gweithio oriau hirach ac yn dangos hyblygrwydd i rieni, ac mae canran fach (16%) o warchodwyr plant yn cychwyn am 6am ac yn gorffen mor hwyr â 6.30pm. Mae rhai gwarchodwyr plant wedi dweud wrth yr Awdurdod Lleol y byddan nhw'n ystyried cau'n hwyrach ar gyfer y rhieni hynny sydd ei angen ond mae hyn fesul achos. Ar hyn o bryd mae 3 gwarchodwyr plant gennym sy'n cynnig gofal ar y penwythnos yn y ddinas, ond ni ddangosir bod galw mawr am ofal ar benwythnosau ar hyn o bryd. Does dim darparwyr gofal plant sy'n cynnig gofal dros nos yng Nghasnewydd. Ni ddangosodd yr arolwg rhieni alw mawr am ddarpariaeth ar y penwythnos na gofal dros nos.

Roedd lleoliadau meithrinfa ddydd yn agor ar wahanol adegau ar draws y ddinas gyda 9% yn cynnig gofal plant o 7am a'r mwyafrif yn cau am 6pm. Mae gofal dydd fesul sesiwn yn llai hyblyg gyda dim ond 1 lleoliad yn cynnig gofal cofleidiol a chyfanswm o 2 yn cynnig sesiynau cinio. Does dim nanis ar y cynllun cymeradwyo yng Nghasnewydd, a allai gynnig mwy o hyblygrwydd i rieni wrth weithio oriau annodweddiadol.

O'r arolwg rhieni, roedd yr ymatebion sy'n gysylltiedig ag amser ac argaeledd yn canolbwyntio ar 'Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion' (13.82%)

Ac 'Mae amseroedd gofal plant yn anaddas' (10.14%) sy'n gyfradd ymateb gymharol isel. Fodd bynnag, pan ofynnwyd am foddhad rhieni, nodwyd 'Oriau Agor Estynedig' yn y bore (24.24%) a gyda'r nos (24.24%), a 'mwy o hyblygrwydd (gofal ad hoc)' (24.24%) fel yr ail reswm mwyaf cyffredin dros fod yn anfodlon ar eu gofal plant. Er y gallwn weld y gall fod gwahaniaeth rhwng yr oriau a'r galw annodweddiadol presennol, nid yw'r gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg rhieni yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r galw am oriau estynedig.

Mae swyddogion Awdurdodau Lleol sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r sector wedi gweithio gyda darparwyr i ddod yn fwy hyblyg gyda'u hamseroedd agor. Mae hyblygrwydd amseroedd gwasanaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar ganiatâd cynllunio, gorbenion safleoedd, yswiriant a chostau staffio yn erbyn y galw i'w gwneud yn ddichonadwy i'r busnes ddarparu ar eu cyfer. Y prif reswm dros wasanaethau gofal plant a ddarperir i'r Awdurdod Lleol yn anecdotaid drwy gyfarfodydd rhwydwaith yw nad oes digon o alw cyson am wasanaethau cyn 8am neu ar ôl 6pm i dalu am gostau cynnal yr oriau estynedig.

Yn ôl ymholiadau i'r GGiD, mae rhieni'n dweud wrthym, er eu bod angen gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol, yn aml nid ydynt yn barod i dalu'r costau ychwanegol y byddai hyn yn eu creu ac felly'n dod o hyd i ffyrdd eraill o gael rhywun i ofalu am eu plant (ffrindiau a theulu 45% yn ystod y tymor 52% amser gwyliau)

Meysydd i'w gwella

- ✓ Gweithio'n agos gyda'r cyhoedd i ddeall y galw gwirioneddol am oriau estynedig yng nghyd-destun gorfod talu am y gwasanaeth pe bai'n cael ei ddarparu.
- ✓ Gweithio gyda'r sector i ddeall yr heriau o ran darparu oriau agor estynedig.

Bydd angen i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant amlinellu anghenion gofal plant hefyd nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r:

Mathau o ofal plant sydd ar gael

O'r data a gafwyd drwy'r DHG mewn perthynas â rhestrau aros a lleoedd gwag, mae'n ymddangos bod digon o warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd llawn, gofal fesul sesiwn a thu allan i oriau ysgol ar draws y ddinas. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r data'n gyson ac felly mae'n rhaid i unrhyw asesiad a wneir ar y data hwn yn unig gael ei dymheru gan ganlyniadau'r ymgynghori a gwybodaeth leol. Mae dadansoddiad o ymholiadau a gafwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dangos bod rhai pocedi lle mae dewisiadau gofal plant yn gyfyngedig. Er enghraifft, yn Llyswry, Pillgwenlli a Betws mae darpariaeth gyfyngedig iawn ar gyfer pob math o wasanaeth. Nid oes gwarchodwyr plant ym Mhilogwenlli na Betws. Mae gofal meithrinfa ddydd llawn a gofal fesul sesiwn yn yr ardaloedd hyn hefyd yn gyfyngedig. Ar ben hynny, mae lleoedd addysg a gynhelir ar gyfer plant sy'n codi'n 3 oed yn lleihau yn yr ail a'r trydydd tymor oherwydd cymeriant mis Medi. Mae lleoliadau nas cynhelir yn gyffredinol yn gallu darparu ar gyfer unrhyw ddiffyg mewn lleoedd a gynhelir; fodd bynnag, yn yr ardaloedd a grybwyllir uchod, mae nifer y lleoedd addysg nas cynhelir sydd ar gael yn gyfyngedig. Daw hyn, yn rhannol, oherwydd yr her ariannol y byddai gofal plant y sector preifat yn ei hwynebu pe bai'n cael ei ddatblygu yn yr ardaloedd hyn. Mae'r ardaloedd a nodwyd yn rhai Dechrau'n Deg i raddau helaeth (poblogaeth uchel o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig, anweithgarwch economaidd uchel a theuluoedd incwm isel) felly; mae teuluoedd cymwys yn cael gofal plant am ddim drwy Dechrau'n Deg, mae cylchoedd chwarae cymunedol y sector preifat wedi cau yn sgil hynny gan adael ychydig i ddim lleoliadau gofal plant â thâl i wasanaethu'r ardal. Pe bai buddsoddiad yn cael ei wneud wrth gefnogi gofal plant preifat yn yr ardaloedd hyn, ni fyddai cynaliadwyedd hirdymor y gofal plant yn ymarferol. Mae hwn yn faes i'w fonitro wrth i ni symud tuag at y cynnig gofal plant 30 awr. Gallai'r cynnig gofal plant roi cyfle inni ddatblygu darpariaeth gofal plant preifat yn yr ardaloedd hyn o amddifadedd ond dylid parhau i fod yn ofalus.

Yn ôl y data mae digon o ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol ar draws y Ddinas ac eithrio gofal ar ôl ysgol i blant sydd ag angen arbennig. Fel awdurdod rydym yn ymwybodol bod angen darpariaeth ar ôl ysgol i blant ag anghenion arbennig yn ardal y Gaer o'r ddinas.

Mae darpariaeth mynediad agored ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol gyda dim ond 5 lleoliad cofrestredig sydd ar gael (yn amodol ar argaeledd staff). Mae lleoliadau eraill wedi'u cyfyngu i 2 awr sydd ddim yn cael ei ystyried yn ofal plant ac sydd ddim yn addas i rieni sy'n gweithio. Dangosodd adborth gan rieni fod gofal plant addas yn ystod gwyliau yn gyfyngedig a nad oedd oriau gweithredu rhai clybiau gwyliau bob amser yn addas i rieni sy'n gweithio.

Yn ôl yr Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae, tra bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn rhoi canfyddiad cadarnhaol cyffredinol o gyfleoedd chwarae yng Nghasnewydd, mae yna feysydd sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu gwella, fel darpariaeth wedi'i staffio. Ar ben hynny, mae arwydd cryf bod rhieni'n wylidwrus am eu plant yn cael mynediad i gyfleoedd chwarae ac eithrio'r rhai sy'n agos at adref neu sydd dan oruchwyliaeth oedolion. Yn ogystal, byddai'n fuddiol cynnal ymgynghoriad tebyg gyda phlant a phobl ifanc, er mwyn canfod a yw eu dehongliadau o gyfleoedd chwarae yn adlewyrchu neu'n gwrth-ddweud rhai'r oedolion yr ymgynghorwyd â hwy.

Wrth ystyried ble mae'r plant yn mynd i chwarae, nododd y mwyafrif llethol naill ai eu cartref eu hunain, neu gartref ffrind, gardd tŷ neu ardal chwarae sefydlog, gyda'r gyfradd ymateb yn 75.2%, 70% a 58.1% yn y drefn honno. Nodwyd mai clybiau ar ôl ysgol a chlybiau ieuenctid oedd y lle lleiaf tebygol i blant Chwarae, a fyddai'n awgrymu y byddai cynnydd mewn darpariaeth â staff o safon yn faes sydd angen gwella. Fodd bynnag, gallai hyn ddeillio o ddehongli clybiau ar ôl ysgol/clybiau ieuenctid fel gofal plant nid lle chwarae, ac os felly, dylai'r pwyslais fod ar hyrwyddo'r ddarpariaeth chwarae wedi'i staffio mewn modd gwybodus.

Tra bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn rhoi canfyddiad cadarnhaol cyffredinol o gyfleoedd chwarae yng Nghasnewydd, mae yna feysydd sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu gwella, fel darpariaeth wedi'i staffio. Ar ben hynny, mae arwydd cryf bod rhieni'n wylidwrus am eu plant yn cael mynediad i gyfleoedd chwarae ac eithrio'r rhai sy'n agos at adref neu sydd dan oruchwyliaeth oedolion. Yn ogystal, byddai'n fuddiol cynnal ymgynghoriad tebyg gyda phlant a phobl ifanc, er mwyn canfod a yw eu dehongliadau o gyfleoedd chwarae yn adlewyrchu neu'n gwrth-ddweud rhai'r oedolion yr ymgynghorwyd â hwy.

Ar hyn o bryd mae 2 nanis wedi'u cofrestru ar gynllun cymeradwyo AGC yng Nghasnewydd a does dim gwybodaeth arall am nanis eraill a allai fod yn gweithio ond **sydd heb** gofrestru ar y rhestr gymeradwyo. Nododd y nanis sydd wedi'u cofrestru gyda'r cynllun cymeradwyo y byddent yn caniatáu i GGiD gysylltu â nhw, ond fe wrthodon nhw ateb y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Yn draddodiadol, mae nanis yn cefnogi un neu ddau deulu ar y tro ac nid ydynt yn darparu cryn dipyn o ofal y gellid ei gategoreiddio fel rhywbeth ystadegol gymwys i weddill y sector.

Mae gwarchodwyr plant yn allweddol er mwyn cynnig gwasanaethau cofleidiol hanfodol mewn ardaloedd lle nad oes ganddyn nhw ddarpariaeth y Tu Allan i Oriau Ysgol. Mae grantiau sy'n cael eu darparu gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gael i gefnogi datblygiad, cynaliadwyedd ac ansawdd gwarchodwyr plant. Mae PACEY Cymru yn cydnabod y cymorth sydd yn cael ei gynnig i blant anabl hefyd.

Mae ALI Casnewydd hefyd yn cynnig Grant Plant Anabl hyd at £300 y gall gwarchodwyr plant eu defnyddio i:

- gefnogi darparwyr gofal plant i wella eu hamgylchedd drwy gynnig offer ar gyfer gofal arferol sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion plant anabl
- cefnogi darparwyr gofal plant a allai fod angen hyfforddiant penodol ar gyfer angen ychwanegol yn eu lleoliad
- cefnogi darparwyr gofal plant i wella eu hamgylchedd a hyrwyddo cyfranogiad llawn plant ag anabledau drwy gynnig offer ar gyfer chwarae a dysgu sy'n hygyrch i bawb
- cefnogi lleoliadau gofal plant i wella eu hoffer neu ystafelloedd synhwyraidd

Dangosodd yr arolwg rhieni fod dros hanner yr ymatebwyr (56%) wedi dweud eu bod yn gwybod ble i gael gafael ar wybodaeth am ofal plant. Mae hyn yn welliant ers yr ADGPau blaenorol, ond byddwn yn parhau i godi proffil Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Casnewydd drwy weithio'n agos ag Uned Data Cymru ar hyrwyddo DEWIS Cymru, gwefan GGiD Cymru a'r rhwydwaith GGiD Cenedlaethol sy'n gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru.

Meysydd i'w gwella

- ✓ Gwella'r ddarpariaeth cyn ysgol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - ✓ Cynyddu'r darpariaethau yn ystod gwyliau'r ysgol i helpu rhieni sy'n gweithio i gael gofal dydd llawn.
 - ✓ Hyrwyddo'r cynllun cymeradwyo nani i alluogi rhieni i gael mynediad at ofal plant hyblyg a gallu cael mynediad at y rhan gofal plant o gredydau treth gwaith. Gallai hyn helpu i gefnogi rhieni sy'n gweithio oriau nad ydynt yn rhai arferol.
 - ✓ Strategaeth farchnata ar gyfer cynhwysiant digidol a hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mewn cymunedau.
-
- **Oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt**

Mae data'n dangos bod gofal plant ar gael i blant o bob oed. Mae gwarchodwyr plant yn gallu gofalu am blant rhwng 0-17 oed. Mae'r data yn dangos mai ychydig iawn o leoliadau sydd yn gofalu am blant rhwng 12 a 14 oed ac mae'n ymddangos nad oes galw am ofal plant dros 15 oed.

Nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol i'w gwella.

- **Fforddiadwyedd gofal plant**

Mae fforddiadwyedd gofal plant yn cael ei amlygu fel rhwystr gan rieni, cyflogwyr a rhanddeiliaid. Roedd 61.5% o;’r rhieni a gwblhaodd yr arolwg yn cytuno â’r sylw bod gofal plant yn rhy ddrud.

Roedd y data a gafwyd o holiaduron rhieni’n dangos bod ychydig dros 66% o rieni yn hawlio gofal plant di-dreth ac roedd 21% yn hawlio credydau cynhwysol / credydau treth. Yn ôl yr ymgynghoriad gyda chyflogwyr mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun talebau di-dreth yn uchel.

Mae'r cysyniad o fforddiadwyedd yn aml yn oddrychol sy'n gwneud ateb y galw am ofal plant fforddiadwy yn heriol. Cynaliadwyedd os oes angen ffactora busnesau gofal plant wrth ystyried fforddiadwyedd, gan mai'r mwyaf "fforddiadwy" rydych chi'n gwneud gofal plant, y mwyaf o bwysau ariannol rydych chi'n ei roi ar iechyd ariannol y busnes. Gall rhoi pwysau ar gynaliadwyedd o fewn y farchnad gofal plant arwain at fusnesau sy'n methu, mwy o ymyrraeth ariannol gan yr awdurdod lleol a/neu bartneriaid yn y trydydd sector a fydd yn anochel yn dod i ben wrth golli lleoedd gofal plant.

Er bod ansawdd yn ffactor pwysig ar gyfer dewis gofal plant, mae pris, yn ddealladwy, yn parhau i fod yn ffactor achosol uchel a allai arwain at ddefnyddio ffynonellau gofal plant rhatach sydd heb eu rheoleiddio. Yng Nghasnewydd does gennym ni ddim nifer uchel o ofal plant anrheoledig, ond mae gwersylloedd a chlybiau chwaraeon ar gael y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau sydd heb eu cofrestru. Er y gall gweithredu heb gofrestru leihau costau rhedeg, mae ansawdd a lles plant, gan gynnwys gweithdrefnau diogelu, yn cael eu gadael heb eu rheoleiddio. Hefyd, nid yw'n caniatáu i rieni a gofalwyr ddefnyddio eu budd-daliadau gofal plant i helpu gyda chostau gofal plant.

Meysydd i’w gwella

- ✓ Gwella'r wybodaeth sydd ar gael gan gyflogwyr i rieni sy'n ymwneud â chymorth ariannol a hyblygrwydd gofal plant.
- ✓ Rheoli disgwyliau cyhoeddus a chorfforaethol o ran fforddiadwyedd, hyblygrwydd a hygyrchedd gofal plant a cheisio cydbwysu fforddiadwyedd â chynaliadwyedd.

- **Lleoliad y gofal plant**

Mae dosbarthiad daearyddol gofal plant yng Nghasnewydd yn dda ar y cyfan gyda phocedi o ddewisiadau cyfyngedig mewn rhai gwasanaethau fel y nodwyd yn gynharach.

Meysydd i’w gwella

Mae angen gwneud gwaith pellach gyda Chynllunio a Thai yn benodol pan fo datblygiadau tai mawr gyda thai 3 a 4 ystafell wely yn cael eu cynllunio. Mae angen i unrhyw adeiladau cymunedol sy'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer safleoedd yn y dyfodol ystyried y gallai gofal plant fod yn ddefnydd arfaethedig ar gyfer adeiladau o'r fath, felly gallent letya ar gyfer rheoliadau AGC wrth lunio dyluniadau adeiladu.

- **Gweithlu Gofal Plant a Chwarae**

Gellid dadlau mai datblygu gweithlu'r dyfodol yw'r prif ganfyddiad allweddol i'w gynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae heriau'r gweithlu wedi wynebu'r sector gofal plant a chwarae ers sawl blwyddyn. Yn ogystal, mae'r pwysau y mae COVID-19 wedi'i roi ar y sector wedi bod yn gymhleth, gan wneud recriwtio a rheoli lefelau staffio yn anodd iawn. Er bod y data hwn wedi'i dynnu o'r DHG ar gyfer y cyfnod 7 Mehefin - 4 Gorffennaf 2021, mae materion yn ymwneud â'r gweithlu yn parhau gyda ffactor allweddol yn ymwneud â salwch staff oherwydd ynysu COVID a diffyg staff â chymwysterau addas yn y sector i lenwi swyddi gwag.

Mae'r ymateb i'r DHG yn cynrychioli 90.3% o gyfanswm y sector gofal plant a chwarae ar gyfer gwasanaethau cofrestredig AGC. Ar hyn o bryd mae 837 o aelodau staff yn y gwasanaethau hynny, gyda'r rhan fwyaf o'r gweithlu yn gweithio yn y sector Gofal Dydd Llawn ar hyn o bryd.

Cyfanswm nifer y staff a adawodd y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf yw 131, cyfanswm nifer y swyddi gwag yw 74. Gellir tybio bod cyfradd swyddi gwag o 56.48% yn y sector gofal plant a chwarae. Mae'r data hefyd yn dangos nad yw nifer y swyddi gwag presennol bob amser yn bodloni'r staff ychwanegol sydd eu hangen mewn gwirionedd dros y 24 mis nesaf (gwahaniaeth o 43% yn fwy na'r nifer presennol o swyddi gwag).

Mae cyfraddau swyddi gwag yn ôl y math o ddarparwr fel a ganlyn:

Gofal Dydd Llawn	32.3%
Gofal Dydd Fesul Sesiwn	14.2%
Y tu allan i oriau ysgol	61.9%
Chwarae Mynediad Agored	75%

Mae nifer y staff o fewn y sector sydd â sgiliau Cymraeg yn isel fel rheol. Cyfanswm y staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw 15.43%, ac 80% o staff mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Er bod y ffigur fel % yn edrych yn dda, mae gwybodaeth leol yn dangos bod mwy na 4 aelod o staff yn gweithio dros y 2 Gylch Meithrin a oedd ar agor ac yn gymwys i gymryd rhan yn y DHG ar adeg casglu'r data. Mae angen gwneud gwaith i gynyddu lefel y siaradwyr Cymraeg yn y sector i sicrhau y gallwn gynyddu faint o Gymraeg y mae plant yn dod i gysylltiad â hi, ond yn bwysig er mwyn sicrhau bod y rhai mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg y Blynnyddoedd Cynnar yn cael eu trochi'n llawn yn yr iaith. Mae recriwtio siaradwyr Cymraeg o fewn y sector wedi bod yn gymhleth yn hanesyddol. Mae sawl ffactor y mae angen eu hystyried wrth ddadansoddi Gweithlu Cymraeg ac yn benodol recriwtio staff gofal plant a chwarae

sy'n siarad Cymraeg. Codwyd hyn gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg ac mae camau gweithredu o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'u cynnwys.

Meysydd i'w gwella

Er bod y data'n dangos bod mwy o gapasiti o fewn lleoedd gofal plant ar gael i blant ar y rhestr aros, a hyd yn oed galw yn y dyfodol, mae'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff yn atal y lleoedd hynny rhag cael eu defnyddio.

- ✓ Mae angen gwneud mwy o waith yn lleol ac yn genedlaethol i annog mwy o bobl i ymuno â'r sector, ac mae angen gwneud mwy i gydnabod y gweithlu gofal plant a chwarae o ran cyflog a phroffesiynoldeb cymwysterau. Mae'r mater hwn wedi'i ddwysáu i lefel Llywodraeth Cymru ac mae Casnewydd yn cael ei chynrychioli ar y grwpiau strategaeth gweithlu perthnasol.
- ✓ Datblygu strategaeth gweithlu ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar i'w rhedeg ochr yn ochr â chynllun gweithredu'r ADGP
- ✓ Gweithio gyda Gyrfaoedd a Cholegau i annog mwy o fyfyrwyr i ymgymryd â chymwysterau Gofal Plant a Chwarae
- ✓ Cydweithio â rhaglenni cyflogadwyedd i hyrwyddo gofal plant a chwarae fel opsiwn ymarferol fel llwybr gyrfa